Y Pwyllgor Craffu – Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol

2020 - 2021

sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

CYNNWYS

Rhagair y Cadeirydd 2

1. Cyflwyniad 3
2. Trosolwg o waith y Pwyllgor 2020/21 4
   - 2.1 Nifer y Cyfarfodydd 4
   - 2.2 Rôl yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol 4
   - 2.3 Y Flaenraglen Waith 5
   - 2.4 Rheoli Perfformiad 6
   - 2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 8
   - 2.6 Effaith Covid-19 ar wasanaethau a gwmpesir gan y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd 9
   - 2.6.1 Effaith Covid-19 ar Wasanaethau Adran yr Amgylchedd - 9
   - 2.6.2 Effaith Covid 19 ar Gartrefi a Chymunedau Mwy Diogel - 10
   - 2.7 Craffu Cyn Gwneud Penderfyniad 11
   - 2.7.1 Diweddariad am Ddatganiad Blynyddol Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd 11
   - 2.7.2 Cynllun Gweithredu Carbon Sero-net 12
   - 2.7.3 Adolygiad o'r Gwasanaeth Gwastraff – Ebrill 2021 13
   - 2.8 Adroddiadau Ychwanegol 14
   - 2.9 Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Awgrymu Pynciau ar gyfer y Pwyllgor Craffu 15
3. Gweithgarwch y Pwyllgor Craffu 16
   - 3.1 Ymchwiliadau Craffu (Gorchwyl a Gorffen) 16
   - 3.2 Datblygu Aelodau 17
4. Heriau 18
5. Gwaith y Pwyllgor yn y Dyfodol 18
6. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu 19
7. Presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor 20

Rhagair y Cadeirydd

Mae'n bleser gen i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol hwn gan y Pwyllgor Craffu -Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd sy'n darparu trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod rhwng Mai 2020 ac Ebrill 2021.

Hoffwn ddechrau trwy nodi, yn ddiamheuaeth, fod 2020/21 wedi bod yn gyfnod heriol i bawb. Rwy'n cydymdeimlo â'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliaid a'r bobl a'r busnesau sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi oherwydd effaith Covid-19.

Rwy'n falch o ddweud bod y Cyngor, yn ystod y pandemig, wedi ffocysu'n llwyr ar amddiffyn ei drigolion a pharhau i gynnal ei swyddogaethau allweddol.

Gyda'n gilydd, rydym wedi dysgu sut i graffu o bell, cynnal agwedd hyblyg tuag at ein Blaenraglen Waith ac addasu'n gyflym i flaenoriaethau sy'n newid. Wrth weithio'n agos gyda swyddogion, llwyddodd y Pwyllgor i gadw agwedd gadarn dan arweiniad yr Aelodau.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys tystiolaeth y gall y pwyllgor craffu hwn, trwy reoli'r Flaenraglen Waith, gynhyrchu craffu o ansawdd da ar gyflymder. Mae'r ffordd rithwir newydd o weithio wedi ein dysgu y gallwn gynnal craffu o ansawdd wrth fod yn hyblyg ac ystwyth.

Eleni, roedd Blwyddyn y Cyngor yn fyrrach na'r arfer oherwydd i graffu gael ei ohirio rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd oherwydd y pandemig

O fis Tachwedd, roeddem wedi gallu ailafael yn ein gwaith gyda Blaenraglen Waith ddiwygiedig oedd wedi'i rheoli'n ofalus, ac oedd yn cynnwys y materion sy'n codi fel adroddiadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 yn ogystal â'r adroddiadau craffu traddodiadol. Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol na ddylai roi unrhyw faich diangen ar swyddogion a oedd yn rhan o broses ymateb ac adfer Covid.

Yn ogystal, mae'r newid yn fformat y Pwyllgorau Craffu fel ei fod yn cynnwys Aelodau'r Bwrdd Gweithredol i gyflwyno'r adroddiadau a osodwyd ar y Flaenraglen Waith gan y Pwyllgor, wedi cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau. Rwy'n teimlo bod hyn wedi bod yn fuddiol iawn ac rwy'n ddiolchgar fel Cadeirydd, i Aelodau'r Bwrdd Gweithredol sydd wedi cyflwyno adroddiadau yn ystod y flwyddyn hon.

Hoffwn ddiolch i'm Is-gadeirydd, y Cynghorydd Aled Vaughan Owen, am ei gefnogaeth barhaus a'r swyddogion am eu gwaith caled wrth hwyluso'r broses Graffu ac am ddarparu cyfleoedd i wella ein cydnerthedd, gan ein galluogi i ganolbwyntio ar faterion allweddol er budd y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Yn olaf, ond nid yn y lleiaf, rwy'n ddiolchgar i holl Aelodau'r Pwyllgor sydd wedi paratoi'n dda a chanolbwyntio'n dda ar gyfer pob cyfarfod, gan ganiatáu i'r Pwyllgor, trwy drafod, godi cwestiynau/sylwadau perthnasol a gwneud penderfyniadau gwybodus.

Y Cynghorydd John James
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd

1. Cyflwyniad

Mae'r swyddogaeth graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu y Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrff partner sy'n effeithio ar y Sir, a llywio'r penderfyniadau hynny.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl bwyllgorau craffu"baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol."

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o waith y Pwyllgor Craffu – Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yn ystod cylch pwyllgor chwe mis llai blwyddyn y cyngor 2020/21. Bwriad yr adroddiad yw tynnu sylw at waith y Pwyllgor a myfyrio ar y cyflawniadau gan nodi'r hyn a weithiodd yn dda a pha agweddau y gellid eu gwella. Mae'r dadansoddiad hwn yn hanfodol i ddatblygu'r broses graffu. Yn ogystal, efallai y bydd yr adroddiad hwn yn helpu i hwyluso trafodaethau ar eitemau y gellid eu nodi i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Cadeirydd y Pwyllgor yw'r Cynghorydd John James ac mae'n cynnwys 14 o Aelodau Etholedig. Darperir cymorth i'r Panel gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd a swyddogion eraill y Cyngor pan fo angen.

Mae'r Pwyllgor yn helpu i ddarparu nifer o fesurau canlyniadau allweddol o fewn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2018-23:

- **Amcan Llesiant 8 -**
  Byw'n dda - helpu pobl i fyw bywydau iach

- **Amcan Llesiant 9** –
  Byw'n Dda / Heneiddio'n Dda – Cefnogi cysylltiadau da gyda ffrindiau, teulu a chymunedau mwy diogel

- **Amcan Llesiant 12** –
  Amgylchedd Iach a Diogel – gofalu am yr amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol

- **Amcan Llesiant 13** –

  Amgylchedd Iach a Diogel – Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth

Mae rhai o'r mesurau a'r camau o fewn Amcan Llesiant 12 yn gorgyffwrdd â'r Pwyllgor Craffu - Cymunedau, ond byddai'r wybodaeth angenrheidiol hefyd yn cael ei darparu i'r Pwyllgor hwn.

2. Trosolwg o waith y Pwyllgor 2020/21

2.1 Nifer y Cyfarfodydd

Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu bum cyfarfod ym mlwyddyn y Cyngor 2020/21.

Cafodd cyfarfodydd craffu yn Sir Gaerfyrddin eu hatal yn ystod Ebrill a Hydref 2020 oherwydd y pandemig coronafeirws. Ailddechreuodd y cyfarfodydd ym mis Tachwedd ar ôl i Lywodraeth Cymru basio rheoliadau brys dros dro i lacio rhai o'r rheolau oedd yn ymwneud â chynnal busnes y cyngor.

Cafodd y cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ei ganslo hefyd oherwydd y cyfyngiadau ar adnoddau'r Bwrdd Iechyd yn ystod y pandemig.

2.2 Rôl yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref, 2020, cytunodd y Cyngor ar nifer o newidiadau i'w gylchoedd gwaith a'i Reolau o ran Gweithdrefn Craffu. Y prif newid oedd y byddai disgwyl i Aelodau'r Bwrdd Gweithredol fod yn bresennol, cyflwyno'r adroddiadau a osodwyd ar y Flaenraglen Waith gan y Pwyllgor ac ateb cwestiynau a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu a thrwy hynny ddwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif. Gall Swyddogion perthnasol gael eu galw i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am faterion gweithredol.

Yr Amgylchedd –

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am fonitro gwaith Adran yr Amgylchedd sy'n cynnwys gwaith yr is-adrannau Gwastraff a'r Amgylchedd, Priffyrdd a Thrafnidiaeth, Gwasanaethau Eiddo a Pholisi a Pherfformiad.

Mae'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd yn gyfrifol am:

Sbwriel	Gwasanaethau Gofalwyr Adeiladau
Glanhau Strydoedd	Glanhau Adeiladau
Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth	Cynlluniau Argyfwng
Cynnal a Chadw Tiroedd	Llifogydd
Gwasanaethau adeiladau	Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Diogelu'r Cyhoedd –

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am fonitro gwaith y Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd/Safonau Masnach, sy'n rhan o'r Is-adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd.

Mae'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd yn gyfrifol am

Safonau Masnach;	Gwastraff Di-drwydded
Iechyd yr Amgylchedd	Y Gwasanaethau Parcio;
Gorfodi Materion Amgylcheddol;	Bioamrywiaeth
Gorfodi Rheolau Cynllunio	

Diogelwch Cymunedol / Troseddau ac Anhrefn –

Un o rolau allweddol y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yw ei swyddogaethfel Pwyllgor Craffu - Troseddau ac Anhrefn y Cyngor. Mae gan y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd Gylch Gorchwyl ychwanegol penodol lle mae'n arfer pwerau sy'n ymwneud â throsedd ac anhrefn (6.4 yn rhan o'r Ymgynghoriad).

Mae'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig yn gyfrifol am

Materion Gwledig ac Ymgysylltu Cymunedol	Diogelwch Cymunedol; Yr heddlu
Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015	Trechu Tlodi;
Cyswllt y Trydydd Sector	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd.	Cydraddoldeb

Yn ogystal, mae'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau yn mynychu'r cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau sy'n gysylltiedig â chyllid gan gynnwys yr adroddiadau monitro cyllideb.

2.3 Y Flaenraglen Waith

Mae'r Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yn datblygu ei Flaenraglen Waith yn unol â materion sy'n cael eu cwmpasu o fewn y cylch gwaith sy'n ymwneud â: -

- **Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff yn cynnwys:-**
  - Casglu sbwriel,
  - Glanhau strydoedd,
  - Cynnal a Chadw Tiroedd,
  - Glanhau Adeiladau (gan gynnwys Ysgolion, lle bo hynny'n berthnasol),
  - Toiledau cyhoeddus

- **Trafnidiaeth a Gwasanaethau Stryd yn cynnwys:-**
  - Priffyrdd, Goleuadau Stryd,
  - Pontydd,
  - Rheoli Traffig,
  - Gwasanaethau Parcio,
  - Llwybrau beicio a Hawliau Tramwy;

- **Gorfodi Materion Amgylcheddol yn cynnwys:-**
  - Sbwriel, Baw Cŵn;
  - Cerbydau wedi eu gadael ac ati;
  - Gorfodi Rheolau Cynllunio;
  - Safonau Masnach;

Materion Diogelwch Cymunedol yn cynnwys:-

- Atgyfeiriadau Troseddu ac Anhrefn
  (i gynnwys pŵer i lunio adroddiad neu argymhellion i'r Cyngor Sir a/neu Fwrdd Gweithredol y Cyngor);

- **Rheoli Plâu yr Amgylchedd ac Iechyd y Cyhoedd: -**
  - Cynhwysiant Cymdeithasol;
  - Y gymuned;
  - Bioamrywiaeth;
  - Carbon Sero-Net

Er bod gan y Pwyllgor yr opsiwn i gyfethol gweithwyr, swyddogion neu aelodau o Awdurdodau Cyfrifol nad ydynt yn pleidleisio, neu bersonau neu gyrff cydweithredol o ran ei swyddogaethau trosedd ac anhrefn, [yn amodol ar ddarpariaethau Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009], ni wnaeth hynny yn ystod blwyddyn y cyngor 2020/21.

Ym mis Mawrth 2020, datblygodd y Pwyllgor yn ei sesiwn datblygu Blaenraglen Waith flynyddol ei Flaenraglen Waith (FWP) ei hun trwy nodi a blaenoriaethu eitemau ar yr agenda i'w hystyried yn ystod blwyddyn nesaf y cyngor.

Yn ogystal â'r eitemau safonol megis adroddiadau monitro perfformiad a chyllideb a chynlluniau gweithredu ac adroddiadau monitro, nododd y Pwyllgor adroddiadau cyn gwneud penderfyniad gan Flaenraglen Waith y Bwrdd Gweithredol ar gyfer 2020/21.

Yn anffodus, oherwydd pandemig covid-19, canslwyd cyfarfodydd craffu'r Pwyllgor o Ebrill 2020 felly ni chawsant gyfle i gadarnhau'r Flaenraglen Waith datblygedig. Fodd bynnag, yn unol â rheoliadau a hyfforddiant aelodau, llwyddodd y Pwyllgor i gynnal ei gyfarfodydd o fis Tachwedd 2020. O ran paratoi, cyfarfu'r Pwyllgor yn anffurfiol i adolygu ac ail-flaenoriaethu ei Flaenraglen Waith am weddill 2020/21 gan ddechrau ym mis Tachwedd 2020.

Fe fwriodd y Pwyllgor ymlaen â gweithgareddau craffu eraill, a oedd yn cynnwys adolygiad gorchwyl a gorffen a sesiynau datblygu Aelodau.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi cipolwg ar waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

2.4 Rheoli Perfformiad

Adroddiadau Monitro Perfformiad – Un o brif rolau y Pwyllgor Craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau sydd o fewn ei faes gorchwyl. Fodd bynnag, er mwyn darparu'r adroddiadau monitro perfformiad i'r Pwyllgorau Craffu, roedd adolygiad o'r cylch monitro perfformiad presennol yn cael ei gynnal i sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno mewn modd mwy amserol. Felly, er bod yr adolygiad yn cael ei gynnal, roedd yr holl adroddiadau monitro perfformiad a chynlluniau busnes safonol wedi eu dileu o'r Flaenraglen Waith a byddent yn cael eu hailgyflwyno ar ôl i'r adolygiad gael ei gwblhau.

Yn ogystal, roedd y pandemig wedi arwain at beidio â chyflwyno'r Cynlluniau Gweithredu Adrannol i Bwyllgorau Craffu, er mwyn caniatáu i wasanaethau ganolbwyntio ar ddelio ag argyfyngau. Fodd bynnag, derbyniodd y Pwyllgor Asesiad o Effaith y pandemig Covid yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2020 (gweler adran 2.6. Effaith Covid-19 ar wasanaethau a gwmpesir gan y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd).

Adroddiad Perfformiad Hanner Blwyddyn 2020/21 (1 Ebrill i 30 Medi 2020) - Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i hwn yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2021 ,gan roi sylw i'r cynnydd a wnaed o ran y mesurau perfformiad a gynhwysir yn Strategaeth Gorfforaethol 2020/21. Yn ystod y cyfarfod, rhoddwyd sylw i'r ffaith fod rhai mesurau wedi'u rhestru fel rhai nad oedd yn cynnwys targedau, nododd y pwyllgor fod y targedau hyn heb gael eu rhestru oherwydd amgylchiadau pandemig Covid-19 ac efallai na fyddai unrhyw wybodaeth a gasglwyd yn briodol yn ystod y cyfnod hwn.

Strategaeth Gorfforaethol 2018/23 - Diweddariad Ebrill 2021 - Fel rhan o'i rôl o fonitro perfformiad, cafodd y Pwyllgor wybodaeth berthnasol am strategaethau a chynlluniau allweddol y Cyngor. Un o'r meysydd allweddol sy'n ymwneud â gwaith rheoli'r Cyngor yw monitro'r cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion llesiant y Cyngor y manylir arnynt yn Strategaeth Gorfforaethol 2018/23. Gan gofio hynny, ym mis Mawrth 2021, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth fel yr oedd ar gyfer mis Ebrill 2021.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn amcanion Llesiant y Cyngor a fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2018, fel y'u diwygiwyd i adlewyrchu blaenoriaethau sy'n datblygu ac effaith pandemig Coronafeirws (Covid-19), Brexit a newid yn yr hinsawdd. Er yr ystyriwyd ei bod yn arfer da sicrhau bod y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i diweddaru a bod adnoddau wedi'u dyrannu i flaenoriaethau, nododd y Pwyllgor fod yn rhaid cyhoeddi'r Amcanion Gwella yn flynyddol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mesur Cymru 2009) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Canlyniad:
Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2021, argymhellodd y Bwrdd Gweithredol i'r Cyngor bod y Strategaeth Gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant a fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2018 yn cael eu haddasu i adlewyrchu blaenoriaethau sy'n datblygu ac effaith pandemig Covid-19, Brexit a newid yn yr hinsawdd. Cymeradwyodd y Cyngor yr adroddiad diweddaru yn ei gyfarfod ym mis Mai 2021.

Cynlluniau Busnes Adrannol (sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Craffu hwn) - Cyflwynwyd y cynlluniau Busnes Adrannol canlynol gan yr Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol priodol i Aelodau'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2021: -

- Cynllun Busnes Adrannol Adran yr Amgylchedd 2021/22
- Cynllun Busnes Adran y Prif Weithredwr 2021/22
- Cynllun Busnes yr Adran Addysg a Phlant 2021/22

Yn ystod y drafodaeth, cododd yr Aelodau sawl sylw a sawl pryder ynghylch y camau gweithredu a'r mesurau cysylltiedig a gyflwynwyd yn y cynllun adrannol ac ar ôl y drafodaeth, penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol y dylid cynnwys gwybodaeth bellach o ran y gweithredoedd a'r mesurau a bod y Cynlluniau Busnes Adrannol 2021/22 uchod yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf i'w hystyried [Ebrill 2021].

Yn dilyn ymgynghori â'r Cadeirydd, canslwyd y cyfarfod ym mis Ebrill er mwyn caniatáu mwy o amser i adrannau weithio ar Gynlluniau Busnes yr adran. Byddai pob cynllun yn cael ei roi ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2021/22.

2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

Adroddiadau Monitro'r Gyllideb - Bu i gyfarfodydd y Pwyllgor, ar ôl ailddechrau ym mis Tachwedd 2020, barhau i dderbyn adroddiadau monitro'r gyllideb yn chwarterol; y cyllidebau adrannol, refeniw corfforaethol a chyfalaf. Galluogai'r adroddiadau hyn yr aelodau i fonitro'r gwariant ym mhob maes a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf.

Ymgynghoriad - Strategaeth Cyllideb Refeniw 2021/22 i 2023/24 - Ym mis Chwefror 2020, derbyniodd y Pwyllgor fel ymgynghorydd statudol Strategaeth Cyllideb Refeniw 2021/22 i 2023/24 i'w hystyried a rhoi sylwadau arni. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r cynigion presennol i'r Pwyllgor ynghylch y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2021/22, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022/23 a 2023/2024.

Rhoddwyd gwybod bod Covid-19 wedi arwain nid yn unig at gostau ychwanegol na welwyd eu tebyg o'r blaen ond hefyd at ostyngiad mewn incwm pwysig, yn enwedig yn ystod cyfyngiadau symud. Rhagwelwyd y byddai'r cyfuniad o wariant ychwanegol a cholli incwm yn cael effaith o £30 miliwn ar gyllidebau Sir Gaerfyrddin ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Cyflwynodd awdurdodau hawliadau misol, a gafodd eu hasesu ac i raddau helaeth iawn, eu had-dalu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

Wrth ystyried yr adroddiad hwn, cyfeiriwyd at nifer o feysydd sy'n peri pryder gan gynnwys: -

- cynnydd mewn sgamiau ffôn sy'n targedu'r henoed a'r agored i niwed yn ystod y cyfyngiadau symud,
- gostyngiad o ran y cyllid ar gyfer ysgubo ffyrdd
- gostyngiad o ran y cyllid ar gyfer graeanu yn y gaeaf

Yn ogystal â'r uchod, penderfynodd y Pwyllgor argymell i'r Bwrdd Gweithredol y dylid rhoi sylw i'r posibilrwydd o ddyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaeth Truecall.

Canlyniad:
Yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror 2021, argymhellodd y Bwrdd Gweithredol yn unfrydol i'r Cyngor gymeradwyo'r strategaeth gyllideb ar gyfer 2021/22 a oedd yn cynnwys y cynigion canlynol o fewn cylch gwaith yr amgylchedd: - • Gwaredu'r cynigion ynghylch glanhau gwteri ac ysgubo ffyrdd; • Lleihau'r cynnig ynghylch gosod wyneb ar briffyrdd o £300k i £100k; • Darparu cyllid o £75k ar gyfer y gwasanaeth TrueCall;

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2021, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i Strategaeth Cyllideb Refeniw 2021/22 i 2023/24 a oedd yn cynnwys yr addasiadau a argymhellir uchod gan y Bwrdd Gweithredol. Penderfynodd y Cyngor fabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-

2021/22:-

- Dileu'r cynnig i arbed £70k trwy beidio â glanhau gwteri;
- Dileu'r cynnig i arbed £93k trwy beidio ag ysgubo ffyrdd**;**
  (Fodd bynnag, byddai'r arbedion effeithlonrwydd gwreiddiol ar gyfer y cynigion hyn yn dal i gael eu gweithredu, gan arwain at gynnydd cyffredinol mewn capasiti i gydnabod y pryderon am effaith tywydd garw ar hyn)
- Lleihau'r cynnig o ran arbedion mewn perthynas â gosod wyneb priffyrdd o £300k i £100k;
- Darparu cyllid o £75k er mwyn cefnogi cyflwyno'r gwasanaeth TrueCall yn ehangach i breswylwyr sy'n agored i niwed er mwyn atal twyllwyr dros y ffôn;

2.6 Effaith Covid-19 ar wasanaethau a gwmpesir gan y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd

2.6.1 Effaith Covid-19 ar Wasanaethau Adran yr Amgylchedd -

Ym mis Tachwedd, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a roddai grynodeb o effaith pandemig Covid-19 ar adran yr Amgylchedd sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r meysydd a gyflwynwyd gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd a oedd yn ymwneud â: -

- Gwasanaethau Gwastraff ac Amgylcheddol.
- Glanhau Adeiladau (gan gynnwys Ysgolion, lle bo hynny'n berthnasol)
- Trafnidiaeth a Gwasanaethau Stryd gan gynnwys Priffyrdd, Goleuadau Stryd, Pontydd, Rheoli Traffig, Gwasanaethau Parcio, Llwybrau Beicio a Hawliau Tramwy

Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried meysydd o'r un adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd a gyflwynodd yr adroddiad ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd a oedd yn cynnwys: -

- Gorfodi Materion Amgylcheddol gan gynnwys Sbwriel, Baw Cŵn; Cerbydau wedi eu gadael ac ati
- Gorfodi Rheolau Cynllunio
- Bioamrywiaeth”

Codwyd y prif bwyntiau canlynol ac ymatebodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd, gyda chefnogaeth y swyddogion:

- Gwnaed sylw ar y perfformiad o ran ailgylchu, yr oeddid yn rhagweld y byddai'n uwch na'r targed statudol o 64%.

- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â chasgliadau wrth ymyl y ffordd ac a oedd unrhyw ddarpariaeth ychwanegol wedi'i gwneud yn ystod y pandemig.

- O ran y system archebu ar-lein ar gyfer Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (HWRC), gofynnwyd a fyddai hyn yn parhau yn y dyfodol a beth oedd y costau?

- O ganlyniad i gau'r Canolfannau HWRC ar ddechrau'r pandemig, gofynnwyd a oedd unrhyw dystiolaeth o gynnydd mewn tipio anghyfreithlon.

- Codwyd ymholiadau yn ymwneud â materion gorfodi yn ystod y pandemig.

Cydnabu'r Pwyllgor ymroddiad, ymrwymiad, hyblygrwydd, a gwytnwch personol y staff a chanmolwyd eu doniau a'u cyfraniad amhrisiadwy o ran parhau i ddarparu gwasanaeth i'r Cymunedau yn Sir Gaerfyrddin

2.6.2 Effaith Covid 19 ar Gartrefi a Chymunedau Mwy Diogel -

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd a roddodd grynodeb o sut roedd pandemig Covid-19 wedi effeithio ar wasanaethau Diogelu'r Cyhoedd.

Cododd y Pwyllgor nifer o ymholiadau/arsylwadau yn ymwneud â'r adroddiad lle ymatebodd yr Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol gyda chefnogaeth Swyddogion yn unol â hynny. Dyma'r prif faterion a godwyd:-

- A fu unrhyw broblemau o ran cael y wybodaeth gywir gan y cyhoedd?

- Mynegwyd pryder fod y cyhoedd yn dal yn ôl wybodaeth hanfodol a oedd yn helpu i olrhain cysylltiadau.

- Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r cyfnod roedd Covid-19 yn heintus ac a oedd y wybodaeth hon yn cael ei chyfleu'n briodol.

- Dywedwyd mai dim ond ar y ffonau clyfar diweddaraf roedd modd lawrlwytho ap monitro ac olrhain y GIG, ac felly mynegwyd pryder y gallai rhai o'r cyhoedd fod yn cael eu hanwybyddu gan nad oeddent yn gallu cymryd rhan yn y broses monitro ac olrhain.

- I gydnabod y llwyth gwaith ychwanegol oedd ar yr adran Safonau Masnach, gofynnwyd a oedd yn bosibl cyflogi aelodau ychwanegol i ymdopi â'r galw?

Wrth gydnabod y cyfnod na welwyd ei debyg a'r newid sydyn yn y ffordd o weithio, mynegodd y Pwyllgor a'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol eu diolchgarwch i'r staff a'r rheolwyr am eu hymrwymiad i ddelio â'r sefyllfaoedd anoddaf posibl, o ddigartrefedd, rheoli tai, ac ymgysylltu â'r gymuned i ddatblygu a buddsoddi. Roedd yr hyblygrwydd a'r modd roedd pawb wedi addasu yn rhywbeth i'w glodfori.

Derbyniodd y Pwyllgor y ddau adroddiad a gyflwynwyd yn unfrydol.

2.7 Craffu Cyn Gwneud Penderfyniad

2.7.1 Diweddariad am Ddatganiad Blynyddol Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd - Rhagfyr 2020

Cyflwynodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd Adroddiad Datganiad Blynyddol 2020 y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (HAMP) i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2020. Bu'r Pwyllgor yn ystyried gwybodaeth am y rhwydwaith priffyrdd ac yn manylu ar y tri maes allweddol canlynol ynghylch asedau priffyrdd:



- Priffyrdd (ffyrdd cerbydau, troedffyrdd a llwybrau beicio)
- Pontydd a Strwythurau
- Goleuadau Priffyrdd a Goleuadau Traffig

Ystyriwyd pob un o'r categorïau asedau uchod a oedd yn manylu ar yr amodau, sut roedd yr amodau wedi newid ers yr adroddiad diwethaf a'r newidiadau yn y dyfodol ar sail senarios cyllido.

Ymatebodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd, gyda chefnogaeth swyddogion, i lawer o'r ymholiadau a godwyd gan gynnwys y canlynol:

- Cyllid Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

- Cwblhau'r rhaglen newid i oleuadau LED.

- Gwasanaethau Ffordd - effaith tywydd eithafol ar arwynebau ffyrdd, gofynnwyd pa rôl oedd gan newid yn yr hinsawdd o ran pa mor hir y bydd cyflyrau'n parhau i fod yn dderbyniol yn y dyfodol ac a gafodd hyn ei ystyried yn yr adroddiadau cyflwr.

- Pryderon yn ymwneud â diffyg buddsoddiadau yn y dyfodol ar ffyrdd Dosbarth `C'

- Eglurhad ar Gryfhau/Adnewyddu pontydd a nodwyd ac a ddiffiniwyd fel rhai nad ydynt yn cyrraedd y safon.

Canlyniad:
Penderfynodd y Pwyllgor nodi'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd - Adroddiad Datganiad Blynyddol 2020.

2.7.2 Cynllun Gweithredu Carbon Sero-net – Mawrth 2021

Cyflwynodd y Cynghorydd Cefin Campbell, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig, y Cynllun Gweithredu Carbon Sero-net drafft i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2021 ac fe'i lluniwyd yn unol â Cham Gweithredu NZC-28 o'r Cynllun, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi'n flynyddol adroddiadau perfformiad ar y cynnydd tuag at fod yn awdurdod lleol carbon sero-net erbyn 2030



Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, cododd aelodau'r Pwyllgor nifer o ymholiadau lle ymatebodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig, gyda chefnogaeth Swyddogion, yn unol â hynny. Ymhlith yr ymholiadau a godwyd oedd:-

- Sut oedd y Cyngor yn mynd i weithio gyda'r undebau amaethyddol?

- Gofyn am ragor o wybodaeth am osod hwb gwefru cyflym iawn ar gyfer cerbydau trydan yn Crosshands.

- A ddylid cynnwys pwyntiau gwefru cerbydau trydan fel amod cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr e.e., archfarchnadoedd?

- Western Power Distribution a'i gynlluniau i wella capasiti'r system rhwydwaith dosbarthu trydan lleol (Grid).

- A oedd unrhyw bartneriaid eraill ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi datgan argyfwng hinsawdd ac wedi ymrwymo i Garbon Sero-net.

Yn ogystal â'r ymholiadau uchod, mynegwyd siom nad oedd Llywodraeth Cymru, ddwy flynedd ers i'r Cyngor ddatgan argyfwng hinsawdd am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2019, wedi dosbarthu ei chanllawiau adrodd i Awdurdodau Lleol eto.

Yn dilyn trafodaeth, ynglŷn â chapasiti cyfyngedig y rhwydwaith dosbarthu trydan lleol (Grid), cynigiwyd bod y Pwyllgor yn ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru i gyfleu ei bryder ynghylch capasiti cyfyngedig y rhwydwaith dosbarthu trydan lleol ac i ofyn i Lywodraeth Cymru weithio gydag Awdurdodau Lleol, ac eraill, i ddatblygu cynllun clir i fynd i'r afael â'r mater hwn. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn ei lythyr yn mynegi ei siom nad yw Canllawiau Adrodd ar Garbon Cymru wedi'u cyhoeddi hyd yma.

Yn ogystal, cynigiwyd bod y Pwyllgor yn gofyn i'r Bwrdd Gweithredol, mewn llythyr ar wahân at Lywodraeth Cymru, adleisio a chefnogi sylwadau'r Pwyllgor.

Canlyniad:
Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol y dylai'r Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i gyfleu'r sylwadau a godwyd ac argymhellodd i'r Bwrdd Gweithredol y dylai'r Bwrdd Gweithredol ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru i gefnogi ac i ailgadarnhau sylwadau'r Pwyllgor. Yn ei gyfarfod ar 22 Mawrth 2021, rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i gais y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd fod y Bwrdd Gweithredol yn cydnabod pwysigrwydd y mater hwn ac er mwyn gallu bwrw ymlaen a pharhau i weithio tuag at fod yn sefydliad carbon Sero-Net erbyn 2023 a chytunwyd i gymeradwyo'r cais trwy benderfynu'n unfrydol: - **y byddai llythyr yn cael ei ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i adleisio'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2021.**

2.7.3 Adolygiad o'r Gwasanaeth Gwastraff – Ebrill 2021

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad hwn yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2021. Cyflwynodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd - y Cynghorydd Hazel Evans yr adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth ynglyn â'r ystyriaethau, mesurau, ac opsiynau strategaeth ac fe geisiodd farn y Pwyllgor ar y newidiadau arfaethedig i wasanaethau.

Yn ogystal â'r adroddiad manwl, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad ategol ar 'Llunio Dyfodol y Casgliadau Gwastraff yn Sir Gaerfyrddin'.

Ymatebodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol a swyddogion i nifer o ymholiadau/pryderon a godwyd: -

- Codwyd pryder yn ymwneud â'r newid o ran casglu cewynnau a gwastraff anymataliaeth bob pythefnos yn lle bob wythnos.

- Codwyd pryder y byddai gadael blychau o wydr ar ymyl y palmant yn arwain at fandaliaeth.

- Codwyd ymholiadau ynghylch maint y cerbyd casglu Glasbrint Kerbsort a pha mor addas ydyw mewn ardaloedd gwledig.

- Faint o le oedd yn yr adrannau yn y cerbyd Casgliad Glasbrint a ddefnyddir i gadw deunyddiau ar wahân a beth fyddai'n digwydd pe bai un ohonynt yn llanw cyn y lleill?

- Codwyd pryder, pe bai'r casgliad bagiau du yn cael ei leihau i un yr wythnos, gallai hyn achosi cynnydd mewn halogiad.

- Dywedwyd y gallai'r blychau casglu arwain at broblem o ran lle ar ymyl y palmant yn enwedig mewn lleoliadau lle mae eiddo yn agos i'w gilydd.

- Mynegwyd pryder ynghylch lleihau casgliadau bagiau du.

- Codwyd pryder ynghylch y tebygolrwydd y bydd cynnydd mewn tipio anghyfreithlon yn y sir oherwydd y gostyngiad mewn casgliadau bagiau du.

- Gwnaed sylw ynghylch lle roedd baw cŵn/cathod yn cael ei roi a'r amser byddai mewn bagiau du cyn cael ei gasglu

Canlyniad:
Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol argymell y dylai'r Bwrdd Gweithredol barhau i ddatblygu ac ymgynghori ar opsiynau priodol i gyflawni'r targedau statudol a mynd i'r afael â heriau fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad. Bydd y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor llawn yn ystyried yr adroddiad yn ystod 2021/22.

2.8 Adroddiadau Ychwanegol

Covid 19 a'r Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol - Mawrth 2021

Cynigiodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu – Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd, gan gynnal adolygiad o'r Cynllun Diogelu Camfanteisio Ariannol, y dylid cyflwyno'r adroddiad hwn i gyd-aelodau'r Pwyllgor Craffu – Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd.

Gyda chaniatâd y Cadeirydd, ychwanegwyd yr adroddiad at y Flaenraglen Waith ac fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd gyda chefnogaeth y Swyddogion. Yn ystod pandemig Covid-19, datblygodd y Gwasanaeth Safonau Masnach strategaeth er mwyn mynd i'r afael â materion camfanteisio ariannol a oedd yn debygol o godi o ganlyniad i'r pandemig, gan alluogi dilyn ymholiadau a phryderon a godir gan ddinasyddion agored i niwed neu eu heiriolwyr mewn modd amserol. O ganlyniad, defnyddiwyd mentrau amrywiol i gyflawni'r nodau hyn.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn ddiolchgar o dderbyn adroddiad addysgiadol iawn am waith y Gwasanaeth Safonau Masnach yn ystod y pandemig a bu iddynt fynegi eu diolch am ei waith rhagorol.

Canlyniad:
Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol dderbyn adroddiad Covid-19 a'r Cynllun Diogelu Camfanteisio Ariannol.



2.9 Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Awgrymu Pynciau ar gyfer Pwyllgorau Craffu

Mae gwrando ar y cyhoedd a rhoi llais iddynt yn allweddol o ran effeithiolrwydd craffu. Mae'n bwysig rhoi cyfle i bobl Sir Gaerfyrddin (a thu hwnt) lunio'r Flaenraglen Waith Craffu trwy gymryd rhan weithgar. Felly, cyn i'r Pwyllgor drefnu rhaglen ar gyfer eleni, cynhaliodd yr adran Gyfathrebu ymgyrch cyfryngau cymdeithasol, trwy gydol mis Ionawr 2020, i annog a chynyddu cyfranogiad y cyhoedd wrth chwilio am bynciau i graffu arnynt.



O ran cydymffurfio â deddfwriaeth ynghylch cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith craffu, ym mis Ebrill 2018, cytunodd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Fforwm Craffu i anfon gohebiaeth at Gynghorau Tref a Chymuned a fyddai'n cynnwys gwybodaeth i annog cynnydd o ran presenoldeb y cyhoedd yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Craffu ac yn gofyn hefyd am awgrymiadau ar gyfer pynciau i'w hystyried yn y dyfodol.

Mewn ymateb i hyn, mae Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd wedi derbyn llythyr gan Gyngor Cymuned Llan-y-crwys yn gofyn i'r Pwyllgor dynnu sylw arbennig at gyflwr y ffyrdd yn Sir Gaerfyrddin.

Wrth lunio ei Flaenraglen Waith, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan Gyngor Cyfiawnder Llan-y-crwys yn ei gyfarfod ym mis Mawrth. Cydnabu Aelodau'r Pwyllgor fod cyflwr y ffyrdd, yn enwedig y ffyrdd gwledig, yn bwysig a chytunwyd y byddai cyfle ar gael i graffu ar amodau presennol y ffyrdd ar ôl cael y Cynllun Rheoli Priffyrdd ac Asedau a oedd ar y Flaenraglen Waith. (gweler adran 2.7 Diweddariad ynghylch Datganiad Blynyddol Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd)

3. Gweithgarwch y Pwyllgor Craffu

3.1 Ymchwiliadau Craffu (Gorchwyl a Gorffen)

Ar 10 Mehefin 2019, cymeradwyodd a chomisiynodd y Pwyllgor, ar ôl ystyried y ddogfen Cynllunio a Chwmpasu, i gynnal adolygiad i fenter Safonau Masnach Cyngor Sir Caerfyrddin - Y Cynllun Diogelu Rhag Camfanteisio Ariannol (FESS).

Yn unol â hynny, cytunodd y Pwyllgor ar Aelodaeth wleidyddol gytbwys o chwe Chynghorydd.

Mae'r Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol, sef menter aml-asiantaethol a grëwyd ac a ddatblygwyd gan Safonau Masnach Sir Gaerfyrddin, yn gweithio i ganfod ac atal camfanteisio'n ariannol ar bobl sy'n agored i niwed gan ofalwyr, aelodau o'r teulu, troseddwyr ar y trothwy, twyll drwy'r post, a sgamiau dros y ffôn a thrwy'r e-bost.

Yn unol â'r ddogfen Gynllunio a Chwmpasu gychwynnol, y gobaith oedd y byddai'r Grŵp mewn sefyllfa i gyflwyno adroddiad terfynol i'r Pwyllgor ym mis Ebrill 2020. Fodd bynnag, ddechrau mis Mawrth, cafodd unrhyw waith pellach ar yr adolygiad ei atal oherwydd Pandemig Coronafeirws.

Ailddechreuodd y Grŵp ei gyfarfodydd yn rhithiwr o fis Medi 2020 lle llwyddodd y Grŵp i barhau i ddatblygu ei adroddiad terfynol a llunio ei argymhellion, gan gyflwyno'r adroddiad i holl aelodau'r Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd ym mis Ebrill 2021.

Canlyniad:
PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'i gyflwyno at sylw'r Bwrdd Gweithredol i'w ystyried. *Bydd y Bwrdd Gweithredol yn ystyried yr adroddiad a'i argymhellion yn ystod blwyddyn y cyngor 2021/22*

Ar ben hynny, yn dilyn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2019 lle derbyniwyd adroddiad ar Fridio Cŵn yn Sir Gaerfyrddin, penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol mai bridio cŵn yn Sir Gaerfyrddin fyddai'r pwnc ar gyfer adolygiad Gorchwyl a Gorffen nesaf y Pwyllgor yn 2020. Fodd bynnag, ar ôl i'r Pwyllgor gydnabod bod y llwyth gwaith wedi cynyddu o ganlyniad i'r Pandemig Covid-19, cytunwyd i ohirio'r prosiect hwn tan 2021.

3.2 Datblygu Aelodau

Ym mis Hydref 2020, mynychodd yr Aelodau sesiwn Hyfforddiant Craffu rithwir dan ofal y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu.

Cynhaliwyd sesiynau datblygu eraill ar gyfer yr aelodau i gyd neu sesiynau yn benodol ar gyfer aelodau'r pwyllgor craffu, yn rhithiwr.

Cynhaliwyd y sesiynau datblygu / seminarau canlynol i'r holl aelodau yn ystod 2020/21, a chafodd aelodau'r Pwyllgor eu gwahodd iddynt:-

- Hyfforddiant Microsoft Teams ar gyfer cyfarfodydd ar-lein - nifer o sesiynau ym mis Mehefin 2020
- Hyfforddiant Zoom ar gyfer cyfarfodydd ar-lein - Rhagfyr / Ionawr
- Hyfforddiant ynghylch ap newydd Mod.gov (cynhelir gan Civica) - Hydref
- Hyfforddiant Craffu (Cyflwynir gan y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu) - Hydref
- Craffu Ar-Lein (Cyflwynir gan y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu) - Tachwedd
- Cytundebau Adran 106 ac Ymgymeriadau Unochrog - Chwefror
- Briff ynghylch Brechu Covid (Cynhelir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) - Chwefror
- Cyflwyniad i Glefyd Coed Ynn a Rolau a Chyfrifoldebau'r Cyngor Sir - Mawrth
- Tyfu Sir Gaerfyrddin: Caffael Blaengar, cadwyni cyflenwi bwyd a Chyfleoedd yn y Dyfodol - Mawrth
- Anheddau Mentrau Gwledig - Mawrth
- Datblygiadau Un Blaned - Ebrill

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2021/22 a'r rhaglen gyfalaf 5 mlynedd.

Oherwydd y cyfyngiadau oedd yn gysylltiedig â'r Pandemig, ni lwyddodd y Pwyllgor i gynnal ymweliadau safle yn ystod 2020/21.

4. Heriau

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod heriol i'r Awdurdod a'r Pwyllgor ond maent wedi parhau i chwarae rôl adeiladol wrth graffu ar berfformiad a chyfrannu at bolisïau a phenderfyniadau. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod adrannau wedi bod dan bwysau sylweddol yn ystod y pandemig Coronafeirws, ond fe aeth pawb y filltir ychwanegol i sicrhau bod y busnes yn mynd rhagddo yn ôl ei arfer. Ail-leolwyd llawer o adnoddau hefyd i helpu'r gwasanaethau eraill i gynorthwyo o ran rheoli'r pandemig.

Mae aelodau'r pwyllgor, ar ôl rhywfaint o fwlch, wedi addasu'n dda i'r ffordd rithwir o gyflawni eu rôl graffu. Yn ogystal, o fis Tachwedd cafodd y Craffu yn Sir Gaerfyrddin ei ddarlledu i'r cyhoedd am y tro cyntaf. Mae'r aelodau wedi croesawu hyn fel ffordd o graffu agored a thryloyw.

5. Gwaith y Pwyllgor yn y Dyfodol

Nid oes amheuaeth nad yw'r Pwyllgor wedi parhau i wneud cynnydd yn ystod blwyddyn sydd wedi bod yn heriol iawn i bawb dan sylw. Wrth edrych ymlaen i'r flwyddyn nesaf, bydd y Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth.

Mae'n bwysig sicrhau bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o amser y cyfarfodydd Craffu, felly o gynnal rhag-gyfarfodydd, mae'r Pwyllgor yn awyddus i barhau i weithio gyda'i gilydd fel tîm gan annog proses graffu effeithiol.

Bydd gwaith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol yn cael ei ystyried yn rheolaidd fel rhan o'r Flaenraglen Waith a bydd yn parhau i gael ei fonitro drwy'r flwyddyn. Fel rhan o ddatblygiad y flaenraglen waith, bydd y Pwyllgor yn anelu at sicrhau ei fod yn galluogi gwaith craffu penodol i gael ei gyflawni gan sicrhau bod adroddiadau'n cael eu dosbarthu'n decach, bod gan y cyfrifoldebau statudol ffocws a'u bod yn cyd-fynd yn briodol â blaenoriaethau strategol y cyngor.

Er mwyn gwella Craffu, bydd Aelodau'n parhau i fynd i sesiynau datblygu, yn gofyn am gyngor y swyddogion lle y bo'n briodol ac yn manteisio ar drafodaethau anffurfiol cyn cyfarfodydd.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i chwilio am bynciau i'w trafod gan Gynghorau Tref a Chymuned yn flynyddol. Mae rhagor o wybodaeth ar sut i gyflwyno pwnc i'w ystyried a gofyn cwestiynau mewn cyfarfod Craffu ar gael ar ein tudalen we Craffu:
https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/pwyllgorau-a-chyfarfodydd/craffu.aspx#.WUffRdzTXZ7

6. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae’r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a’r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr.

Mae’r cymorth a roddir i’r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:

- Darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i Bwyllgorau Craffu'r Cyngor ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- Rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau gweithredol ac anweithredol y Cyngor a'i swyddogion;
- Rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Fforwm Craffu, a Fforwm Bwrdd Gweithredol y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu;
- Rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- Rheoli cydlyniad a datblygiad y blaenraglenni gwaith Craffu ar y cyd â'r aelodau Craffu;
- Rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweithredu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, awdurdodi adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd;
- Rheoli rhaglen datblygu aelodau'r Pwyllgor Craffu
- Anfon yr agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys blaenraglenni gwaith, adroddiadau gorchwyl a gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost at craffu@sirgar.gov.uk

7. Presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor

Cynhaliwyd cyfanswm o **5** cyfarfod rhwng mis Mai 2020 a mis Ebrill 2021. Cafodd cyfarfodydd a drefnwyd ar gyfer mis Mai, Mehefin a Medi 2020 eu gohirio oherwydd pandemig Covid-19 Caiff presenoldeb gan aelodau'r Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yn ystod y flwyddyn 2020/21 ei ddangos yn y tabl isod.

Aelod y Pwyllgor Craffu	**Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd**	**%**
Y Cynghorydd Mansel Charles	5	100
Y Cynghorydd Arwel Davies	5	100
Y Cynghorydd Joseph Davies	5	100
Y Cynghorydd Karen Davies	5	100
Y Cynghorydd Penny Edwards	2	40
Y Cynghorydd Jeanette Gilasbey	5	100
Y Cynghorydd Tina Higgins	5	100
Y Cynghorydd John James	5	100
Y Cynghorydd Eryl Morgan	5	100
Y Cynghorydd Aled Vaughan Owen	5	100
Y Cynghorydd Dorian Phillips	5	100
Y Cynghorydd Susan Phillips	4	80
Y Cynghorydd Alan Speake	5	100
Y Cynghorydd Dai Thomas	4	80
Dirprwyon	**Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd**	
Y Cynghorydd Deryk Cundy	1	
Y Cynghorydd Tyssul Evans	1	
Y Cynghorydd Ken Lloyd	1	
Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol	**Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd**	
Y Cynghorydd H.A.L. Evans (Yr Amgylchedd)	5	
Y Cynghorydd P. Hughes (Diogelu'r Cyhoedd)	4	
Y Cynghorydd Cefin Campbell	3	
Y Cynghorydd David Jenkins	2	